**Enw'r Ysgol:** Ysgol Treferthyr

| Addysg Grefyddol |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Mae'r disgyblion yn arddangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd addoli, a phwysigrwydd mannau ac arteffactau arbennig i bobl o wahanol grefyddau.
- Mae disgyblion yn gwybod am rai o brif wyliau'r eglwys ac o arwyddocâd diwrnodau pwysig megis y Nadolig, y Pasg yn y ffydd Gristnogol.
- Gwneir defnydd cynyddol o asesu ar gyfer dysgu i ymateb i waith disgyblion - e.e. 2 seren a dymuniad, marcio cyfoedion ayb.
- Mae'r disgyblion yn gyfrifol am bennu meini prawf llwyddiant eu hunain yn y dosbarthiadau hŷn tra yn y Cyfnod Sylfaen mae'r disgyblion yn cyfrannu at bennu targedau yn dda.
- Fel rhan o gynllun Asesu ar gyfer dysgu mae'r disgyblion yn dechrau cymryd rhan fwy gweithredol yng nghynllunio'r rhaglen waith ar gyfer y tymor.
- Mae'r defnydd o dgch mewn ymholiadau yn dda, i ganfod gwybodaeth a chyflwyno darn o waith.
- Rhoddir cyfleoedd i'r holl ddisgyblion gyfrannu yn llafar i drafodaeth ar gwestiynau moesol.
- Cynhelir sesiynau Amser Cylch yn rheolaidd yn y dosbarthiadau ac maent yn cyfrannu at ddatblygu agwedd bositif tuag at rannu problemau ac i deimlo empathi tuag at ei gilydd.
  Mae cyswllt da yn datblygu rhwng yr ysgol ag elusennau dyngarol fel Cymorth Cristnogol, Operation Christmas Child, Plant Mewn Angen ayyb

**Materion i gael sylw**

- Angen sicrhau mwy o gyfleoedd i'r holl ddisgyblion gyfrannu yn llafar i drafodaeth ar gwestiynau Crefyddol.
- Datblygu gallu disgyblion i gynllunio, datblygu ac adfyfyrio ar eu dysgu

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- cynllunnir yn briodol ac yn drylwyr ar sail 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn yng Nghyfnod allweddol 2 ;
- Yn y Cyfnod Sylfaen, datblyga'r disgyblion ddealltwriaeth o bwysigrwydd y gymuned a'r bobl sydd yn helpu o fewn y gymuned wrth astudio Pobl sy'n ein helpu.
- Datblygir maes 'Datblygiad Personol a Chymdeithasol' yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais ac yn barchus tuag at oedolion a'i gilydd.
- Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn parhau i ymestyn eu gwybodaeth o Gristnogaeth, Iddewiaeth, Islam a Hindŵaeth wrth iddynt gymharu rhai o'u credoau a'r arferion
- gwneir defnydd da o destunau, pobl, cymunedau ac arteffactau crefyddol, fel rhan o adnoddau ar gyfer addysgu'r pwnc.
- Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn mynegi barn  bersonol yn dda e.e. eu teimladau. Maent yn siarad yn hyderus am eu profiadau ac agweddau crefyddol.
- Mae'r disgyblion yn dangos parch at eu gwaith ac mae llyfrau'r mwyafrif ohonynt yn drefnus ac yn gymen.
- Mae samplo gwaith disgyblion yn dangos eu bod yn cyrraedd safonau da yn y maes ac yn defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi eu haddysgu yn draws gwricwlaidd..
- Mae'r cynlluniau tymor hir a chanolig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn cynnig y cyfleoedd gorau i'r disgyblion.
- Gwneir defnydd helaeth o wefannau megis GCad a Cynnal fel adnoddau rhyngweithiol
- Mae  cydlynydd y dyniaethau wedi derbyn hyfforddiant llynedd ac roedd addysg grefyddol yn rhan o hyfforddiant Ymateb i waith' a dderbyniwyd gan y cydlynydd- 14.10.11.
- Sefydlwyd perthynas gadarn gydag arweinwyr yn y gymuned e.e. rheithor, gweinidog, Swyddog Cyswllt yr Heddlu.
- Defnyddir Cynllun gwobrwyo'r ysgol i hyrwyddo ymddygiad da yn effeithiol ynghyd ag egwyddorion dulliau Webster Stratton sy'n rhoi bri ar parch a gonestrwydd.
- Ni fu unrhyw achos o ymateb hiliol.  Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy weithgareddau amrywiol.

- Mae adnoddau Addysg Grefyddol yn dda ac yn galluogi'r athrawon i gyflwyno'r cynllun gwaith yn llawn.

**Materion i gael sylw,**

- Ymgyfarwyddo a dogfen Addysg grefyddol – Canllawiau ar gyfer Cyfnod Allweddol 2. (Mawrth 2011)
- Sicrhau hyfforddiant yn y maes ar gyfer staff addysgu.
- Sicrhau cyfleoedd a gweithgareddau gwahaniaethol ar gyfer dysgwyr medrus a thalentog
- Mae angen annog y disgyblion (yn enwedig y rhai hŷn) i ymateb/cyfrannu yn fwy estynedig mewn trafodaethau grŵp.

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

| Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? | Ydy ✓ | Nac ydy |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Cynhelir gwasanaethau torfol dair gwaith yr wythnos. Arweinir un gwasanaeth, a phwyslais ar gynnwys ysbrydol, gan y Ficer lleol; un gwasanaeth yn canolbwyntio ar foesoldeb ac un yn amrywio yn ei gynnwys yn ddibynnol ar gyflwyniad y disgyblion.
- Mae'r gwasanaethau yn adlewyrchu ethos Cristnogol yr ysgol.
- Trwy gyfrwng addoli ar y cyd yn yr ysgol, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd addoli, a phwysigrwydd mannau arbennig i bobl o wahanol grefyddau.
- Yn ystod gwasanaethau Cyd Addoli hyrwyddir y plant i adnabod y gwerthoedd sy'n bwysig yn eu bywyd bob dydd megis parch tuag at eu hunain, eraill a'u hamgylchedd.
- Rhoddir cyfle i ddisgyblion baratoi, cyflwyno a chymryd rhan weithredol yn y gwasanaethau ar brynhawn Gwener.
- Yn achlysurol trefnir i'r disgyblion cymryd rhan yng ngwasanaethau'r Eglwys Blwyf e.e. cyngerdd carolau, Ŵyl flodau fel eu bod yn cyfrannu at addoli ar y cyd yn y gymdeithas.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Creu ardal fyfyrio yn yr ysgol.

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: _Karena Owens____ (Pennaeth)

Llofnod: _Karena Owens____ (Cydlynydd)

Dyddiad: _18/10/11_______